34. Cyn cyflawni unrhyw ddatblygiad ar yr wyneb a allai achosi gollwng dŵr wyneb llygredig, gosodir sistem ataliol i ddraenio dŵr wyneb o'r chwarel ac/neu dir mwyngloddio atodol, a hynny mewn modd sy'n bodloni'r Awdurdod Cynllunio Mwynau, er mwyn cyfeirio dŵr wyneb i lagwnau gwaddodi/trin a adeiladwyd at y diben hwn cyn gollwng y twr i'r sistem ddraenio dŵr wyneb presennol. Cyn cychwyn adeiladu am hynny, cyflwynir cynlluniau manwl i ddangos safle, dyluniad a manylebau'r sistem ddŵr wyneb ataliol a'r cyfleustra gwaddodi i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau.

Before any surface development is undertaken which may result in the discharge of polluted surface water runoff from the quarry and/or ancillary mining land, an intercepting surface water drainage

AMODAU/ CONDITIONS C16/1164/16/MW – ROMP Chwarel Penrhyn, Bethesda

system shall have been installed to the reasonable satisfaction of the Mineral Planning Authority which shall direct surface water runoff to properly constructed settlement/treatment lagoons prior to discharge to the existing surface water drainage system. Before the construction thereof is commenced, detailed plans showing the siting, design and specification of the surface water interception and settlement facility shall be submitted to and approved by the Mineral Planning Authority.

35. Ac eithrio yng nghyswllt datblygiad dan amod 31 uchod, ac ar wahân lle bo datblygiad o'r fath yn rhan annatod o'r gwaith a ganiateir dan yr hawl hwn ac unrhyw hawliau cynllunio blaenorol, ni chaniateir cloddio, arllwys, paratoi gwaith na chadw defnyddiau o fewn 10m i gwrs dwr. Dan unrhyw amgylchiadau ni chaniateir i unrhyw ddefnydd atal unrhyw gwrs dwr neu gylfat na pheri iddynt gael eu herydu gan unrhyw gwrs dwr.

Except in connection with development required by condition 31 above, and except where such development is an integral part of the operations permitted by this and previous planning permissions, no extraction, tipping, preparatory works or storage of materials shall take place within 10 m. of a watercourse. Under no circumstances shall any material be permitted to block any watercourse or culvert or be permitted to be eroded by any watercourse.

36. Byddir yn argloddio'r holl danciau cadw olew, tanwydd neu gemegau, yn cynnwys y pibellau llenwi a gwagio cysylltiedig a hynny mewn modd sy'n bodloni'r awdurdod cynllunio mwynau, gyda'r cyfaint a amgaeir wedi'r argloddio o leiaf 10% yn uwch na chyfaint y tanc. Ni fydd unrhyw gyfleusterau ar gyfer storio olew, tanwydd neu gemegau i'w lleoli o fewn neu'n ymyl gwyneb y gwaith chwarel.

All oil, fuel or chemical storage tanks, including fill and draw off pipes attached thereto, shall be bunded to the satisfaction of the mineral planning authority, the volume enclosed by the bund to exceed that of the tank by at least 10%. There shall be no facilities for the storage of oils, fuels or chemicals to be located within or adjacent to the working face of the quarry.

Rheolaeth Goleuadau Allanol / Control of external lighting

37. Byddir yn cysgodi'r holl oleuadau allanol mewn modd i leihau i'r eithaf y golau a wasgerir at i fynnu a'r ymyrraeth eiddo cyfagos. Rhaid dylunio a gweithredu unrhyw oleuadau newydd neu rhai sydd wedi'u ailosod yn yr un modd.

All external lighting shall be shielded in such a manner as to cause minimum upward light scatter and minimum interference to adjacent property. Any replacement or additional floodlights shall be similarly designed and operated.

Archaeoleg/Archaeology

38. Rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, manylion cynllun rheoli/strategaeth cynnal a chadw ar gyfer y safleoedd archeolegol o fewn ardal y datblygiad o fewn 6 mis i ddyddiad penderfynnu'r Adolygiad Cyfnodol. Rhaid i'r cynllun ddarparu ar gyfer cadwraeth yn y fan a'r lle, neu weithredu lefel briodol o liniaru archeolegol ar gyfer unrhyw adeilad neu strwythur archeolegol sydd wedi'i adnabod o fewn ardal y datblygiad yn unol â'r argymhellion yn Atodiadau 12/1 i 12/3 i'r Datganiad Amgylcheddol a'r crynodeb o fesurau lliniaru a nodir yn Nhabl 12/2 i Adran 12 o'r Datganiad Amgylcheddol.

Details of a management plan/maintenance strategy for the archaeological sites within the area of development must be submitted to the Mineral Planning Authority for written approval within 6 months of the date of the Periodic Review determination. The scheme shall include for the preservation in situ or implementation of an appropriate level of archaeological mitigation for any archaeological structure or building identified within the development area in accordance with the recommendations in Appendices 12/1 to 12/3 to the Environmental Statement and the summary of mitigatory measures set out in Table 12/2 to Section 12 of the Environmental Statement.

AMODAU/ CONDITIONS C16/1164/16/MW – ROMP Chwarel Penrhyn, Bethesda

39. Ni chaniateir unrhyw stripio pridd, gwaith tir neu glirio'r safle ar dir sydd heb ei aflonyddu hyd nes y cyflwynwyd manyleb ar gyfer rhaglen o waith archeolegol er cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau. Rhaid gweithredu'r datblygiad a chwblhau'r oll waith archeolegol yn hollol unol â'r manylion a gymeradwywyd. Rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, adroddiad manwl ar y gwaith archeolegol a'r canlyniadau o fewn chwe mis o gwblhau'r gwaith maes archeolegol neu ar gwblhau'r datblygiad, p'un bynnag sy'n gyntaf.

No soil stripping, groundworks or site clearance on undisturbed ground shall take place until a specification for a programme of archaeological work has been submitted to and approved in writing by the Mineral Planning Authority. The development shall be carried out and all archaeological work completed in strict accordance with the approved details. A detailed report on the archaeological work and results shall be submitted for the written approval of the Mineral Planning Authority within six months of the completion of the archaeological fieldwork or completion of the development, whichever is the sooner.

40. Ar gyfer pob rhan o'r gwaith tynnu pridd, dylid cyflwyno rhybudd 14 diwrnod o flaen llaw i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau a bydd y datblygwr yn caniatáu mynediad ar unrhyw adeg resymol i gontractwr archeolegol priodol cymwysedig fel y gallant gynnal raglen lliniaru archeolegol yn unol ag argymhellion y fanyleb archeolegol yn amod 39.

For each phase of soil stripping operations, at least 14 days' notice shall be given to the Mineral Planning Authority and the developer shall afford access at all reasonable times to an appropriately qualified archaeological contractor who shall be allowed to undertake a programme of archaeological mitigation in accordance with the details approved by Condition 39.

41. Drwy gydol oes y datblygiad rhaid codi a chynnal ffens i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Mwynau o gwmpas yr ardal sy'n gynwysedig o'r safleoedd archeolegol adnabyddir o dan PRNau 5380, 12327 a 29989, fel y nodwyd ym mhennod 12, Ffigwr 1.4 o'r Datganiad Amgylcheddol. Ac eithrio fel y cytunwyd dan amod 38 uchod, ni chaniateir i unrhyw waith o fewn yr ardal sydd wedi'i ffensio heb gytundeb ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau a gweithrediad raglen lliniaru archeolegol sydd wedi'i gytuno.

For the duration of the development a fence shall be erected and maintained to the satisfaction of the Mineral Planning Authority around the area including the archaeological sites identified by PRNs 5380, 12327 and 29989, as identified on Environmental Statement Chapter 12 Figure 1.4. Except as may have been agreed under condition 38 above, no works shall take place within the fenced area without the prior written approval of the Mineral Planning Authority and the implementation of an agreed archaeological mitigation programme.

Tipio / Tipping

42. Cyfeirir y gwaith arllwys ar y cyfan i lunio'r ffurfiau tir terfynol a nodwyd ar y cynlluniau a gyflwynwyd ac yn fwy penodol er mwyn osgoi unrhyw ffurfiau tomen conigol, proffiliau tomen llorweddol neu syth neu bonciau rheolaidd neu lorweddol, er hwyluso adfer cynefin i'r planhigion a'r anifeiliaid nodweddiadol a pherthynnol i gyffiniau cyfagos y safle.

Tipping operations generally shall be directed towards the production of final land forms indicated on the submitted plans and shall more specifically be undertaken so as to avoid any conical tip forms, horizontal or straight tip profiles or regular or horizontal benches, and so constituted as to facilitate the return of flora and associated fauna typical of the area immediately surrounding the site.

43. Dim ond gwastraff mwynau o'r gwaith y caniateir ei arllwys ar y safle. Ni ddylid arllwys unrhyw sbwriel na defnyddiau gwastraff o unrhyw fath o tu fewn na thu allan i'r safle.

Only mineral waste derived from operations hereby permitted shall be deposited within the site. No refuse or waste materials of any description from within or outside the site shall be deposited therein.

AMODAU/ CONDITIONS C16/1164/16/MW – ROMP Chwarel Penrhyn, Bethesda

Adfer / Restoration

44. Rhaid i waith adfer cynyddol o'r gweithfeydd chwarel a tomeni gwastraff fwrw ymlaen yn unol â'r Cynllun Adfer ac Ail-greu Cynefin yn Atodiad 3/6 o'r Datganiad Amgylcheddol a chynllun y cais cyf. P7/106A. Rhaid cyflwyno cynllun o waith adfer cyfnodol er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau pob 5 mlynedd yn unol â gofynion Amod 5. Ni chaniateir i ddatblygiad cysylltiol yn cynnwys adeiladu ffyrdd gludo o fewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer adfer ac ôl-ofal. Yn fwy penodol, fydd y cynllun ail-greu ac adfer cynefin yn cynnwys:

- a) Creu cynefinoedd rhostir yr ucheldir,
- b) Trin wyneb y tir mewn modd effeithiol i sicrhau ail-sefydlu tyfiant cynhenid,
- c) Atodlen plannu coed a llwyni,
- d) Unrhyw ddiwygiadau i'r cymesgedd hadau adfer gyda chytundeb yr Awdurdod Cynllunio Mwynau,
- e) Anghenion ffensio i'w gytuno mewn ysgrifen gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau,
- f) Lleoliad a manyleb wal gerrig sych adeiladu i'w gytuno mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau a'i weithredu o fewn amserlen y cytunwyd arni.

Progressive restoration of the quarry workings and waste tips shall proceed in accordance with the Habitat Recreation & Restoration Plan in Appendix 3/6 of the Environmental Statement and Application Plan Ref. P7/106A. A phased plan of restoration works shall be submitted for the approval of the mineral planning authority every 5 years in accordance with the requirements of Condition 5. Ancillary development including the construction of haul roads shall not at any time be undertaken within areas designated for restoration and aftercare. More specifically the habitat creation and restoration plan shall include;

- a) *The creation of upland moorland habitats,*
- b) *The treatment of the surface of the land in a manner to secure effective re-establishment of native vegetation,*
- c) *Tree & shrub planting schedule,*
- d) *Any amendments to the restoration seed mix with the agreement of the Mineral Planning Authority,*
- e) *Fencing requirements to be agreed in writing with the Mineral Planning Authority,*
- f) *Location and specification of dry stone wall construction to be agreed in writing by the Mineral Planning Authority and implemented within an agreed timescale.*

45. Ar yr amser a bennwyd yn amod 1 uchod neu cyn hynny, neu ar ddiwedd neu ddiwedd cynamserol y gwaith, byddir yn clirio pob offer chwarel, peiriannau a chyfarpar yn llwyr oddi ar wyneb y tir. Wedyn fe'i hadferir mewn modd sy'n bodloni'r Awdurdod Cynllunio Mwynau yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd â chynlluniau'r cais a'r cynlluniau adfer sydd wedi'u gosod allan yn Atodiadau 3/5 a 3/6 i'r Datganiad Amgylcheddol ac yn unol â'r gofynion isod;

- i) Byddir yn symud & adfer y byndiau, tir wedi'i aflonyddu, ffyrdd halio/wynebau y croesodd cerbydau'r chwarel drostynt.
- ii) Rhaid adfer ponciau gwaith y chwarel yn unol â'r manylion a ddangoswyd ar gynllun cais rhif 'P7/11A.01' & 'P7/11A.02'.
- iii) Gwaith adfer yn unol a'r Cynllun Adfer ac Ail-greu Cynefin yn Atodiad 3/6 o'r Datganiad Amgylcheddol a chynllun y cais cyf. P7/106A, gan gynnwys trin meinciau, gwynebau'r tomeni a thir ategol gweithredol mewn modd effeithiol i sicrhau ail-sefydlu llystyfiant a chynefinoedd rhostir yr ucheldir,
- iv) Y Chwarel Werdd i'w hadfer yn unol â chynlluniau Cyf. P7/85, P7/86 a'r cynllun adfer sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 3/5 i'r Datganiad Amgylcheddol,
- v) Rhaid adfer oll tir chwarel cysylltiol/ardal brosesu'r chwarel yn unol ag anghenion Amod 46.

On or before the time limit specified in condition 1 above, or upon final completion or premature cessation of operations, the land surface shall be completely cleared of all quarry plant, machinery and equipment. Thereafter it shall be restored to the satisfaction of the Mineral Planning

AMODAU/ CONDITIONS C16/1164/16/MW – ROMP Chwarel Penrhyn, Bethesda

Authority in accordance with the application plans and restoration schemes set out in Appendices 3/5 and 3/6 to the Environmental Statement and in accordance with the following requirements;

- i) *All disturbed land, bunds, haul roads/surfaces traversed by quarry vehicles to be removed & restored.*
 - ii) *Final quarry faces shall be restored in accordance with the details shown on application plan ref. 'P7/11A.01' & 'P7/11A.02'.*
 - iii) *Restoration works in accordance with the Habitat Recreation & Restoration Plan in Appendix 3/6 of the Environmental Statement and Application Plan P7/106A, including the treatment of benches, tip surfaces and ancillary operational land in a manner to secure effective re-establishment of upland moorland vegetation & habitat,*
 - iv) *Green Quarry to be restored in accordance with Plan Ref. P7/85, P7/86 and scheme of restoration contained in Appendix 3/5 to the Environmental Statement,*
 - v) *All ancillary mining land/quarry processing area to be restored in accordance with the requirements of condition 46.*
46. Dim hwyrach na'r 31^{ain} Rhagfyr 2032, neu ar derfyn cyfnod chwe mis o ddarfyddiad parhaol gweithrediadau mwyngloddio, p'un bynnag sy'n gynharaf, rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau, cynllun adfer ac ôl-ofal manwl ar gyfer y safle gwaith prosesu ac/neu tir mwyngloddio cynorthwyol. Fydd y cynllun yn gymwys ar gyfer yr ardal sydd wedi'i amlinellu'n goch ar gynllun, 'Atodiad 2' ynghlwm i'r dyfarniad yma a rhaid i'r cynllun fod yn seiliedig ar egwyddorion cyffredinol y Cynllun Adfer ac Ail-greu Cynefin yn Atodiad 3/6 o'r Datganiad Amgylcheddol. Ystyrir i'r oll offer, peiriannau, adeiladau a strwythurau sydd yn atodol i weithrediadau mwyngloddio fod yn ddarostyngedig i'r atodlen o anghenion amlinellir isod a rhaid i'r cynllun adfer gynnwys manylion gwaith ail-broffilio terfynol ar gyfer y safle, atodlen plannu coed a llwyni; anghenion hadu, ffensio a draenio; a rhaglen ac amserlen ar gyfer gweithredu'r gwaith. Rhaid i'r cynllun gynnwys ar gyfer;
- i. *Cadwraeth yn y fan a'r lle, neu weithredu lefel briodol o liniaru archeolegol ar gyfer unrhyw adeilad neu strwythur i'w symud/dymchwel yn unol â'r argymhellion yn Atodiadau 12/1 i 12/3 i'r Datganiad Amgylcheddol a'r crynodeb o fesurau lliniaru a nodir yn Nhabl 12/2 i Adran 12 o'r Datganiad Amgylcheddol.*

Not later than 31st December 2032, or the expiry of six months following the permanent cessation of mining operations, whichever is the sooner, a detailed scheme of restoration and aftercare for the processing plant site and/or ancillary mining land shall be submitted for the approval of the mineral planning authority. The scheme shall apply to the area outlined in red on plan, 'Appendix 2' attached to this permission, and shall be based on the general principles of restoration of the Habitat Recreation & Restoration Plan in Appendix 3/6 of the Environmental Statement. All plant, machinery, buildings and structures deemed ancillary to mining operations shall be subject to the requirements outlined below and the scheme of restoration shall include details of the final re-profiling works for the site, tree and shrub planting schedules; seeding, fencing and drainage requirements; and a programme and timetable for the implementation of the works. The scheme shall include for;

- i. *The preservation in situ or implementation of an appropriate level of archaeological mitigation for any structure or building to be removed/demolished in accordance with the recommendations in Appendices 12/1 to 12/3 to the Environmental Statement and the summary of mitigatory measures set out in Table 12/2 to Section 12 of the Environmental Statement.*
47. Bydd y gwaith adfer yn ddarostyngedig i gynllun ôl-ofal a monitro pum mlynedd a rhaid ei gyflawni i fodlonrwydd yr Awdurdod Cynllunio Mwynau wedi darfod pob cam o'r gwaith adfer ac/neu adfer terfynnol yn unol ag amod 44 a chynnwys archwiliad llawn o fesuriadau ôl-ofal ac/neu rheolaeth bioamrywiaeth sydd yn gymwys i oll ardaloedd yn destun i waith adfer, ar gyfer y flwyddyn flaenorol a blwyddyn i ddod o'r datblygiad . Ar gyfer y Chwarel Werdd, fydd y ddarpariaeth ôl-ofal yn gymwys am gyfnod o bum mlynedd o ddyddiad y caniatad hwn.

Restoration shall be subject to a five year aftercare and monitoring scheme, which shall be implemented to the satisfaction of the Mineral Planning Authority upon completion of each

AMODAU/ CONDITIONS C16/1164/16/MW – ROMP Chwarel Penrhyn, Bethesda

restoration phase and/or final restoration in accordance with condition 44 and shall include a full audit of aftercare measures and/or biodiversity management applied to all areas subject to restoration works for the previous & ensuing years of development. For the Green Quarry, the provision of aftercare shall apply for a period of five years from the date of this permission.

48. Rhaid gweithredu'r cynllun rheoli rhostir sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 13/2 o'r Datganiad Amgylcheddol ar gyfer Ardal Lliniaru Gwaen Gynfi Cynefin, sydd wedi'i liniogi'n goch ar Gynllun P7/73C, drwy gydol y datblygiad i sicrhau sefydlu rhostir is-fynyddig. Yn fwy penodol, bydd y cynllun rheoli rhostir yn cynnwys;
- (a) rheoli pori,
 - (b) trin ac atgyweirio terfynau,
 - (c) darpariaeth ar gyfer gwaith arolwg ychwanegol i'w gytuno'n ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau, er mwyn cyfarwyddo rheolaeth y safle ar gyfer y dyfodol,
 - (d) mesuriadau lliniaru ar gyfer y nodweddion archeolegol sydd wedi'i adnabod o fewn ardal y prosiect yn unol a darganfyddiadau adroddiad archeolegol cyf. G2098, dyddiedig Medi 2012.

The approved moorland habitat management plan for the Gwaen Gynfi Habitat Mitigation Area contained in Appendix 13/2 of the Environmental statement, identified by red hatching on Drawing P7/73C, shall be implemented for the duration of the development to secure the establishment of a sub-montane heath. More specifically, the moorland habitat management plan shall include;

- a) control of grazing,*
- b) boundary treatment & repair,*
- c) provision for additional survey work to be agreed in writing with the Mineral Planning Authority in order to inform future management of the site,*
- d) mitigation measures for the archaeological features identified within the project area in accordance with the findings of archaeological report ref. G2098, dated September 2012 .*

49. O fewn 3 mis i ddyddiad y penderfyniad hwn, neu gyfnod arall â gytunir yn ysgrifenedig, rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau manylion priodol drwy gyfeirio at atodlen benodol o fesurau, amodau a chynllun wrth raddfa i ddarparu ar gyfer llinell derfyn llwybr caniatool drwy dir y chwarel. Bydd mynediad i'r llwybr caniatool yn cael eu sicrhau wedi hynny yn unol â'r manylion a gyflwynwyd o fewn 28 diwrnod o gymeradwyaeth.

Within 3 months of the date of this determination, or other period as may be agreed in writing, appropriate details by reference to a specific schedule of measures, conditions and scale plan shall be submitted for the approval of the mineral planning authority to make provision for the demarcation of a permissive path through quarry land. Access to the permissive path shall thereafter be secured in accordance with the details as submitted within 28 days of approval.

50. Dim hwyrach na'r 31^{ain} Rhagfyr 2034, neu ar derfyn cyfnod chwe mis o ddarfyddiad parhaol gweithrediadau mwynloddio, p'un bynnag sy'n gynharaf, rhaid adfer Hawliau Tramwy rhif 46 & 50 yng Nghymuned Llandygai i foddhad yr awdurdod cynllunio mwynau yn unol â'r manylion sydd wedi'u cynnwys ar gynllun y cais cyf. P7/109.

Not later than 31st December 2034, or the expiry of six months following the permanent cessation of mining operations, whichever is the sooner, Public Rights of Way No. 46 & 50 in the community of Llandygai shall be restored to the satisfaction of the mineral planning authority in accordance with the details contained on the application plan ref. P7/109.

Gorchymyn Datblygu Cyffredinol/General Development Order

51. Er darpariaethau Rhannau (19 & 21) i Atodlen 2 o'r Gorchymyn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, (neu unrhyw Orchymyn sy'n diwygio, ailosod neu ailddeddfu'r Gorchymyn hwnnw, gydag neu heb newidiadau) -
- (a) Ni chaniateir gosod neu godi offer neu beiriannau sefydlog, adeiladau a strwythurau ar y safle heb ganiatâd cynllunio o flaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau;

AMODAU/ CONDITIONS C16/1164/16/MW – ROMP Chwarel Penrhyn, Bethesda

- (b) Ni chaniateir gollwng gwastraff mwynau ar y safle ac eithrio gorlwyth i'w ddefnyddio mewn gwaith adfer/tirlunio heb ganiatâd cynllunio o flaen llaw gan yr awdurdod cynllunio mwynau

Notwithstanding the provisions of Parts (19 & 21) to Schedule 2 of the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order, 1995 (or any Order amending, replacing or re-enacting that Order, with or without modifications) –

- (a) *No fixed plant or machinery, buildings and structures shall be erected or installed at the site without prior planning permission from the Mineral Planning Authority;*
(b) *No mineral waste shall be deposited at the site except for overburden used in works of restoration/landscaping without prior planning permission from the Mineral Planning Authority.*

Rhesymau/Reasons

1. Er mwyn lleihau hyd neu aflonyddwch o'r datblygiad ac i sicrhau bod y tir yn cael ei adfer i safon resymol amwynder pan fydd hyd oes disgwylidig y chwarel yn gyflawn
To minimise the duration or disturbance from the development and to ensure that the land is restored to a reasonable amenity standard when the anticipated lifespan of the quarry is complete
2. Er budd mwynderau gweledol yr ardal ac i sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir
In the interests of the visual amenities of the area and to secure the proper development of the site
3. I alluogi'r Awdurdod Cynllunio Mwynau i reoli'r datblygiad a lleihau'r effaith ar fwynderau'r ardal
To enable the Mineral Planning Authority to control the development and minimise the impact on the amenities of the area
4. Er mwyn cynorthwyo'r Awdurdod Cynllunio Mwynau wrth fonitro cydymffurfiad gydag amodau.
To assist the Mineral Planning Authority in monitoring compliance with conditions
5. I alluogi'r Awdurdod Cynllunio Mwynau i reoli'r datblygiad a lleihau'r effaith ar fwynderau'r ardal
To enable the Mineral Planning Authority to control the development and minimise the impact on the amenities of the area
6. Er mwyn hwylusu cymryd stoc pridd a monitro adnoddau adfer
To facilitate soil stock taking and monitoring of restoration resources
7. Er mwyn hwylusu cymryd stoc pridd a monitro adnoddau adfer
To facilitate soil stock taking and monitoring of restoration resources
8. Er mwyn hwyluso cymryd stoc deunyddiau a monitro adnoddau adfer
To facilitate materials stock taking and monitoring of restoration resources
9. Er budd bioamrywiaeth yr ardal ac i ddiogelu cyfanrwydd Ardal Cadwraeth Arbennig Eryri
In the interests of biodiversity of the area and to preserve the integrity of the Eryri Special Area of Conservation
10. Er budd bioamrywiaeth yr ardal ac i sicrhau nad yw adar yn paru'n yn cael eu tarfu gan y datblygiad
In the interests of biodiversity of the area and to ensure breeding birds are not disturbed by the development
11. Er budd bioamrywiaeth yr ardal ac i sicrhau nad yw ymlusgiaid yn cael eu tarfu gan y datblygiad
In the interests of biodiversity of the area and to ensure that reptiles are not disturbed by the development
12. Er mwyn atal tramwyo ddiangen o bridd gan offer trwm a cherbydau
To prevent unnecessary trafficking of soil by heavy equipment and vehicles
13. Er budd mwynderau gweledol yr ardal ac i sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir
In the interests of the visual amenities of the area and to secure the proper development of the site

AMODAU/ CONDITIONS C16/1164/16/MW – ROMP Chwarel Penrhyn, Bethesda

14. Er budd diogelwch priffyrdd
In the interests of highway safety
15. Er budd diogelwch priffyrdd
In the interests of highway safety
16. I alluogi'r Awdurdod Cynllunio Mwynau i reoli'r datblygiad a lleihau'r effaith ar fwynderau'r ardal
To enable the Mineral Planning Authority to control the development and minimise the impact on the amenities of the area
17. Er budd mwynderau preswyl yr ardal
In the interests of the residential amenities of the area
18. Er budd mwynderau preswyl yr ardal
In the interests of the residential amenities of the area
19. Er budd mwynderau preswyl yr ardal
In the interests of the residential amenities of the area
20. Er budd mwynderau preswyl yr ardal
In the interests of the residential amenities of the area
21. Er budd mwynderau preswyl yr ardal
In the interests of the residential amenities of the area
22. Er budd mwynderau preswyl yr ardal
In the interests of the residential amenities of the area
23. Er budd mwynderau preswyl yr ardal
In the interests of the residential amenities of the area
24. To secure proper planning control of the site and in the interests of the amenity of the area
I sicrhau rheolaeth cynllunio priodol o'r safle ac er budd mwynderau yr ardal
25. *In the interests of the amenity of the area and the highest possible environmental standards*
Er budd mwynderau yr ardal a'r safonau amgylcheddol uchaf posib
26. I ddiogelu mwynderau trigolion lleol a strwythur adeiladau
To protect the amenities of local residents and the structure of buildings
27. Er budd diogelwch cyhoeddus.
In the interests of public safety
28. To secure proper planning control of the site and in the interests of the amenity of the area
I sicrhau rheolaeth cynllunio priodol o'r safle ac er budd mwynderau yr ardal
29. To secure proper planning control of the site and in the interests of the amenity of the area
I sicrhau rheolaeth cynllunio priodol o'r safle ac er budd mwynderau yr ardal
30. To secure proper planning control of the site and in the interests of the amenity of the area
I sicrhau rheolaeth cynllunio priodol o'r safle ac er budd mwynderau yr ardal
31. Er mwyn lleihau effeithiau'r ar gynifenoedd yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredol y datblygiad ac i gynnal hydroleg y gors gyfagos
In order to minimise the impacts on habitats during the constuctional and operational phases of development and to maintain the hydrology of the adjacent mire

AMODAU/ CONDITIONS C16/1164/16/MW – ROMP Chwarel Penrhyn, Bethesda

32. Er mwyn lleihau effeithiau'r datblygiad ar gynifenoedd yn ystod y cyfnod gweithredol ac i gynnal hydroleg y gors gyfagos
In order to minimise the impacts of the development on habitats during the operational phases and to maintain the hydrology of the adjacent mire
33. Er budd cynnal hydroleg y gors gyfagos ac i ddiogelu cyfanrwydd Ardal Cadwraeth Arbennig Eryri
In the interests of maintaining the hydrology of the adjacent mire and to preserve the integrity of the Eryri Special Area of Conservation
34. I atal llygru cyrsiau dwr lleol.
To prevent the pollution of local water courses
35. I atal llygru cyrsiau dwr lleol.
To prevent the pollution of local water courses
36. Er budd bioamrywiaeth yr ardal ac i ddiogelu cyfanrwydd Ardal Cadwraeth Arbennig Eryri ac i atal llygru'r amgylchedd ddwr
In the interests of biodiversity of the area and to preserve the integrity of the Eryri Special Area of Conservation and to prevent pollution of the water environment
37. Er budd mwynderau preswyl yr ardal
In the interests of the residential amenities of the area
38. I sicrhau darpariaeth boddhaol ar gyfer cadw a chofnodi olion archeolegol
To ensure the satisfactory preservation and recording of archaeological remains
39. I sicrhau fod rhaglen briodol o liniaru archeolegol yn cael ei weithredu
To ensure the implementation of an appropriate programme of archaeological mitigation
40. I sicrhau fod rhaglen briodol o liniaru archeolegol yn cael ei weithredu
To ensure the implementation of an appropriate programme of archaeological mitigation
41. I sicrhau fod rhaglen briodol o liniaru archeolegol yn cael ei weithredu
To ensure the implementation of an appropriate programme of archaeological mitigation
42. Gofalu yr adferir y safle'n briodol er budd hybu bioamrywiaeth yr ardal
To secure the proper restoration of the site in the interest of promoting the biodiversity of the area
43. Er budd mwynderau gweledol yr ardal.
In the interests of the visual amenity of the area
44. Gofalu yr adferir y safle'n briodol er budd hybu bioamrywiaeth yr ardal
To secure the proper restoration of the site in the interest of promoting the biodiversity of the area
45. Er budd mwynderau gweledol yr ardal.
In the interests of the visual amenity of the area
46. Gofalu yr adferir y safle'n briodol a chofnodi'n briodol y nodweddion o ddiddordeb archeolegol
To secure the proper restoration of the site and the proper recording or preservation of features of archaeological interest
47. Er budd mwynderau yr ardal
In the interests of the amenity of the area
48. Er budd mwyhad bioamrywiaeth ac i sicrhau rheolaeth effeithiol rhostir is-fynyddig
In the interests of biodiversity enhancement and to secure the effective management of a sub-montane heath

AMODAU/ CONDITIONS C16/1164/16/MW – ROMP Chwarel Penrhyn, Bethesda

49. *Er budd mwynderau hamddenol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd
In the interests of recreational amenity and promoting public access*

50. *Er budd diogelu rhwydwaith hawliau tramwy lleol
In the interests of protecting the local rights of way infrastructure*

51. *Er budd mwynderau gweledol yr ardal ac i sicrhau bod y safle'n datblygu'n gywir
In the interests of the visual amenities of the area and to secure the proper development of the site*

Wrth ystyried y cais yma roedd yr Awdurdod Cynllunio Mwynau o'r farn bod y polisiau a rhestrir isod yn berthnasol:

- Polisiau ac egwyddorion cyffredinol Nodyn Cyngor Technegol (TAN 5), (TAN 11), (TAN 15), (TAN 18), (TAN 23) Llywodraeth Cymru,
- Polisiau ac egwyddorion cyffredinol Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau 2004, Llywodraeth Cymru,
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015- Llywodraeth Cymru
- Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 9 Tachwedd 2016 - Llywodraeth Cymru,
- Rheoliadau Gwarchod Cynifenoedd a Rhywogaethau 2010,
- Canllawiau Cynllunio Mwynau Nodyn 14: (Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau),
- CCA Gwynedd Canllawiau Dylunio a Thirlunio Gwynedd 2004,
- CCA Gwynedd Cymeriad y Tirlwedd 2009,
- CCA Gwynedd Cynllunio a'r Iaith Gymraeg 2009,
- Polisiau strategol 1, 2, 3, 7, 16 a Polisiau A1, A2, A3, B7, B8, B10, B12, B14, B15, B16, B17, B18, B23, B27, B32, B33, B34, C9, C10, C12, C14, C15, C17, CH22, CH33, CH36 & D4 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2001 – 2016.

The Mineral Planning Authority is of the opinion that the policies listed below were relevant in the consideration of this application:

- *Policies and general principles Technical Advice Notes (TAN 5), (TAN 11), (TAN 15), (TAN 18), (TAN 23), Welsh Government,*
- *Policies and general principles Minerals Technical Advice Note (Wales) 1: Aggregates 2004 Welsh Government,*
- *Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015 – Welsh Government*
- *Planning Policy Wales Edition 9 November 2016, Welsh Government,*
- *Protection of Habitats and Species Regulations 2010,*
- *Minerals Planning Guidance Note: 14 (Review of Old Minerals Permissions)*
- *Gwynedd SPG Design and Landscaping Guidelines 2004,*
- *Gwynedd SPG Landscape Character 2009,*
- *Gwynedd SPG Planning and the Welsh Language 2009,*
- *Strategic Policy 1, 2, 3, 7, 16 and Policies A1, A2, A3, B7, B8, B10, B12, B14, B15, B16, B17, B18, B23, B27, B32, B33, B34, C9, C10, C12, C14, C15, C17, CH22, CH33, CH36 & D4 of The Gwynedd Unitary Development Plan 2001 – 2016.*

Nodyn i'r Ymgeisydd / Note to Applicant

- Mae'r cais yma wedi'i asesu'n unol â'r saith nôd llesiant o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
This application has been assessed in accordance with the seven sustainability goals of the Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015
- ATODIAD 1 – Cynllun ar gyfer rheoli a monitro allyriadau llwch (Amod 23)
APPENDIX 1 – Scheme for the control and monitoring of dust emissions
- ATODIAD 2 – Ardal Gwaith Prosesu a Thir Mwyngloddio Cynorthwyol (Amod 45)
APPENDIX 2 – Processing Plant Area and Ancillary Mining Land (Condition 45)